Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad Strategaeth Ddigidol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4084A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adolygiad Strategaeth Ddigidol

Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Yr hyn y gwnaethom ei ystyried a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 6

Yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod – mae gwendidau yn null y Cyngor o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol 8

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a meini prawf archwilio 11

# Adolygiad Strategaeth Ddigidol

## Crynodeb o'r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad**

Mae'r arddangosyn isod yn crynhoi'r rheswm pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol a'n hargymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam mae dull strategol o ymdrin â digidol yn bwysig**

1 Mae technoleg ddigidol yn allweddol i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau'r cyngor mewn ffordd fwy ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Mae hefyd yn fodd pwysig i gynghorau gyflawni eu hamcanion llesiant a chyflawni datblygu cynaliadwy.

2 Gall bod â dull strategol, wedi'i fynegi'n glir, o ymdrin â digidol ddod â sawl mantais megis:

- sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer defnyddio digidol a'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer cymunedau lleol sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y Cyngor;
- helpu i sicrhau bod defnydd cynghorau o dechnoleg ddigidol yn cyd-fynd â'u hamcanion strategol allweddol a chynlluniau a strategaethau eraill, a'i fod yn cael ei lywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol;
- lleihau'r risg o ddyblygu o fewn cynghorau a gyda phartneriaid;
- ystyried darparu adnoddau cydlynol ar gyfer digidol dros gyfnodau tymor byr, canolig a mwy tymor dymor; a
- darparu fframwaith i fonitro cynnydd yn ei erbyn yn ystod y tymor byr, hir a chanolig.

**Pwyslais ein harchwiliad**

3 Gwnaethom ystyried i ba raddau y datblygwyd dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

**Ein canfyddiadau allweddol**

4 Gwnaethom ddarganfod wendidau yn null strategol y Cyngor tuag at reoli a chyflawni ei strategaeth ddigidol. Nid yw strategaeth ddigidol 2020-24 y Cyngor yn cael ei mynegi fel cyfres o amcanion a cherrig milltir amser-cyfyngedig. Yn absenoldeb amcanion clir a mesurau llwyddiant, ni yw'n hawdd i'r Cyngor ddeall a yw'n cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a'i werth am arian.

5 Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddadansoddi'r sefyllfa 'fel y mae hi' yn ddigonol i ddatblygu dealltwriaeth o achosion sylfaenol y galw/materion presennol sydd i'w datrys.

6 Nid yw'r Cyngor wedi nodi nac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid hynny a allai fod â diddordeb yn natblygiad ei strategaeth ddigidol.

7 Nid yw'r Cyngor wedi gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol nac wedi nodi ei arbedion a gynlluniwyd o gyflawni ei strategaeth ddigidol. Mae absenoldeb yr wybodaeth hon yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor gael sicrwydd bod modd cyflawni'r strategaeth, a'i bod yn darparu gwerth am arian dros amser.

**Ein hargymhellion ar gyfer y Cyngor**

**Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**

A1 Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, dylai'r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn fewnol ac yn allanol gan gynnwys:

- cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â defnyddio barn rhanddeiliaid o'r ffynonellau presennol; a
- gwneud ei ddull strategol o ymdrin â digidol yn gydnaws ledled y Cyngor a gyda phartneriaid i helpu i nodi cyfleoedd i rannu adnoddau, osgoi dyblygu ymdrech a chyflawni manteision amryfal.

**Nodi goblygiadau adnoddau**

A2 Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn gyflawnadwy ac yn sicrhau gwerth am arian, dylai'r Cyngor nodi goblygiadau'r adnoddau tymor byr, canolig a thymor hir o'i chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion arfaethedig.

**Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian**

A3 Er mwyn helpu i sicrhau y gall y Cyngor fonitro a gwerthuso gwerth am arian yn effeithiol o'i ddull strategol o ymdrin â digidol, dylai gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro cynnydd ac effaith ei strategaeth ddigidol yn ystod y tymor byr, canolig a hir.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn y gwnaethom ei ystyried – cwmpas yr archwiliad hwn

8 Gwnaethom adolygu dull strategol y Cyngor o ymdrin â digidol, ac yn benodol i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.

9 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gyda sampl o Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2023.

10 Ein nod oedd ateb y cwestiwn '**Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**' Gwnaethom hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol?
- A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae eisiau ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol?
- A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i gynllunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol?
- A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision tymor hir/ataliol?
- A yw'r Cyngor yn monitro cynnydd ac yn ei adolygu?
- Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut y mae'n gweithio?

11 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl y gwnaethom fynd ati i'w hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

## Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn

12 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

13 Ein nod oedd:

- rhoi sicrwydd y bydd strategaethau digidol cynghorau yn helpu i gyflawni amcanion llesiant mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau
- rhoi sicrwydd bod cynghorau'n gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gynllunio'u strategaethau digidol;
- esbonio sut mae cynghorau'n defnyddio/cynllunio i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau gwell canlyniadau; ac

- ysbrydoli a grymuso cynghorau a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus drwy nodi a rhannu enghreifftiau o arfer/dulliau nodedig lle bo hynny'n berthnasol.

## Strategaeth Ddigidol y Cyngor

14 Mae Strategaeth Ddigidol y Cyngor yn cynnwys cyfnod 2020-2024. Y weledigaeth ddigidol yw dod yn Gyngor mwy cydnerth, arloesol a thrawsnewidiol drwy wrando ar ein cymunedau, ein busnesau a'n staff ac ymateb iddynt, a nodi cyfleoedd newydd yn y farchnad ddigidol sy'n gwella ein darpariaeth gwasanaeth. Cytunwyd ar Strategaeth Ddigidol y Cyngor ychydig cyn y pandemig, a effeithiodd yn anochel ar allu'r Cyngor i'w chyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw.

*15* Mae'r Strategaeth Ddigidol yn cefnogi Gweledigaeth Gorfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr, sef 'Un Cyngor yn cydweithio gyda'i gilydd i wella bywydau' gan gefnogi cymunedau i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor.

16 Mae'r Strategaeth yn cael ei hystyried yn alluogwr allweddol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mae wedi'i rhannu'n dair thema:

- Dinesydd Digidol – (Hunanwasanaethu pan fo angen Dewis o sianeli cyfathrebu Sgiliau digidol a chynwysoldeb)
- Cyngor Digidol – (Trawsnewid gwasanaethau Datrysiadau digidol arloesol Data cydgysylltiedig Yn canolbwyntio ar Ddinasyddion) a
- Man Digidol – (Wedi'i gysylltu'n eang, Yn canolbwyntio ar y Gymuned, Yn flaengar, yn ddeniadol yn economaidd)

17 Yn sail i bob thema mae rhaglen waith i gyflawni nodau'r Cyngor erbyn 2024, sy'n cael ei chrynhoi yn y strategaeth fel rhestr o gamau gweithredu. Nid yw'n glir os ydynt wedi cyflawni'r rhain.

18 Mae naw egwyddor gan gynnwys gwasanaethau digidol, a fydd yn cael eu hintegreiddio i ddarparu cysylltedd di-dor, i fod yn gyflym ac yn ddibynadwy, i ddangos arweinyddiaeth ddigidol, ac i gyfrannu at leihau ôl troed carbon

19 Mae yna hefyd 12 nod i Ben-y-bont ar Ogwr fel cyngor sy'n aeddfed yn ddigidol, megis gosod targedau uchelgeisiol clir ar gyfer darparu ffrydiau gwaith, darparu gwerth am arian trwy ddefnydd adnoddau'n ddoethach, a chyflawni proses o ail-ddylunio gwasanaethau o'r dechrau i'r diwedd, gyda phwyslais ar anghenion dinasyddion, ymgorffori budd i'r gymuned, a chyfathrebu.

# Yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod – mae gwendidau yn null y Cyngor o ddatblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol

## Yn absenoldeb amcanion clir a mesurau llwyddiant, cyfyngir ar allu'r Cyngor i fonitro ac asesu gwerth am arian ei strategaeth ddigidol

20 Nid yw strategaeth ddigidol 2020-2024 y Cyngor yn cael ei mynegi fel cyfres o amcanion mesuradwy a cherrig milltir amser-gyfyngedig. Yn absenoldeb amcanion clir a mesurau llwyddiant, nid yw'n hawdd i'r Cyngor ddeall a yw'n cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig a'i werth am arian.

21 Mae enghreifftiau lle mae'r Cyngor wedi gweithredu prosiectau digidol unigol i wella gwerth am arian gwasanaethau. Fel y prosiect Jig-so Tai, a wnaeth ostwng cyswllt wyneb yn wyneb ac osgoi costau posibl o bron £9 miliwn y flwyddyn. Ac eto, ni adroddwyd ar arbedion a buddion y prosiectau hyn i gynorthwyo'r Cyngor i asesu gwerth am arian cyffredinol ei ddull strategol o ymdrin â digidol.

22 Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd wrth gyflawni ei strategaeth yn ei Fwrdd Trawsnewid Digidol. Mae'n defnyddio adroddiad amlygu sy'n crynhoi ei raglen o weithgarwch digidol. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth nodi llithriant cyflwyno fesul prosiect. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi datblygu dull i'w alluogi i asesu gwireddu gwir fuddion y prosiectau hyn yn ei raglen ddigidol, na sut mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at gyflawni ei weledigaeth a'i nodau strategol ar gyfer digidol. Felly, nid yw'r Cyngor yn gwybod a yw'r prosiectau at ei gilydd yn cyflawni canlyniadau tymor canolig a thymor hir y bwriedir gan y Cyngor dros oes ei strategaeth.

## Nid yw'r Cyngor wedi nodi nac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a allai fod â diddordeb mewn datblygu ei strategaeth ddigidol

23 Nid yw'r Cyngor wedi nodi nac ymgysylltu â phob rhanddeiliaid a allai fod â diddordeb mewn datblygu a chyflawni ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Mae peidio â chynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu dull strategol y Cyngor, neu wrth ei gyflawni, yn peryglu cynllunio dulliau nad ydynt yn diwallu anghenion dinasyddion ac felly nad ydynt yn sicrhau gwerth am arian.

24 Nid yw'r Cyngor wedi nodi partneriaid digidol posibl nac archwilio sut y gallai weithio gyda nhw i ddatblygu a chyflawni ei ddull strategol o ymdrin â digidol. Byddai mapio pwy fyddai'n bartneriaid a sut y gallai gweithio gyda nhw yn helpu i sicrhau'r Cyngor ei fod wedi nodi'r holl gyfleoedd priodol ar gyfer gweithio mewn

partneriaeth. Gallai hefyd helpu i nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth ddigidol o fanteision arbedion o gael gwared ar ddyblygu a rhannu adnoddau prin.

25 Nid yw'n amlwg sut mae'r strategaeth ddigidol yn gydnaws â strategaethau corfforaethol allweddol eraill y Cyngor megis strategaeth carbon sero net Pen-y-bont ar Ogwr 2030. Dylai wneud ei ddull strategol o ymdrin â digidol yn gydnaws ledled y Cyngor a gyda phartneriaid, helpu'r Cyngor i nodi cyfleoedd i rannu adnoddau, osgoi dyblygu ymdrech a sicrhau manteision amryfal.

## Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i lywio datblygiad ei strategaeth ddigidol

26 Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddeall tueddiadau yn y presennol a'r dyfodol a allai effeithio ar ei strategaeth ddigidol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio data mewnol i ddeall i ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn defnyddio sianeli digidol i gysylltu â'r Cyngor ac mae hefyd wedi gofyn am farn o ran digideiddio gwasanaethau yn y dyfodol drwy ei ymgynghoriad ar y gyllideb. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth ehangach o dystiolaeth ac nid yw hefyd wedi adolygu effeithiolrwydd ei ddull strategol yn rheolaidd i nodi'r gwersi sydd wedi'u dysgu. Drwy beidio ag ystyried amrywiaeth eang o ffynonellau tystiolaeth, mae'r Cyngor yn peryglu datblygu dull strategol nad yw'n diwallu anghenion ei gymunedau nac yn darparu gwerth am arian.

## Nid yw'r Cyngor wedi asesu costau a nodi arbedion a gynlluniwyd o gyflawni ei strategaeth ddigidol

27 Nid yw'r Cyngor wedi asesu costau'r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol, er ei fod wedi nodi cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth. Yn 2021-22, neilltuodd ychydig yn llai na £1.3 miliwn mewn cyfalaf a refeniw. Erbyn diwedd 2024-25, rhagwelir y bydd ychydig yn llai na £900,000 o'r gronfa wrth gefn hon dal ar gael. Rydym wedi argymell yn flaenorol[1] y dylai'r Cyngor feintioli'r adnoddau a'r amserlenni sydd eu hangen i gyflawni ei uchelgeisiau digidol.

28 Hefyd, nid yw'r Cyngor wedi nodi ei arbedion a gynlluniwyd o gyflawni ei strategaeth ddigidol. Er bod strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor (MTFS) 2023-24 i 2026-27 yn rhagweld rhaglen ddigidol y Cyngor yn cyflymu i alluogi arbedion effeithlonrwydd. Mae absenoldeb yr wybodaeth hon yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor fod ag unrhyw sicrwydd bod modd cyflawni'r strategaeth, a'i bod yn darparu gwerth am arian dros amser.

[1] Archwilio Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i ddod yn 'Gyngor Digidol', Medi 2021

29 Mae enghreifftiau o brosiectau digidol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu rhoi ar waith, gyda'r nod o sicrhau buddion dros y cyfnod mwy tymor hir. Er enghraifft, y prosiect Awtomeiddio Prosesau Robotig. Bydd angen buddsoddiad mewn technoleg ddigidol ar y prosiect hwn a fydd yn mynd i gostau sylweddol ymlaen llaw ond bod ganddo'r nod o gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwell canlyniadau yn ystod y cyfnod mwy tymor hir. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw hyn wedi datblygu oherwydd y costau ymlaen llaw. Mae ystyried y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau dros y cyfnodau tymor byr a mwy tymor hir yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

30 Nid oes gan y Cyngor gynllun wedi'i flaenoriaethu ar gyfer lleihau nifer y dyfeisiau a systemau sydd wedi dyddio, heneiddio ac nad ydynt bellach wedi'u cefnogi. Rydym yn cydnabod bod heriau parhaus yn y diwydiant TG wrth i gostau caledwedd, meddalwedd a staff godi, gan ei gwneud yn fwyfwy anodd i wneud cynnydd sylweddol mewn gostyngiadau a reolir. Fodd bynnag, mae absenoldeb cynllun strategol ar gyfer diweddaru ei seilwaith TG yn creu risg i'r Cyngor o ysgwyddo costau ac aneffeithlonrwydd ychwanegol dros y cyfnod mwy tymor hir.

# Atodiad 1

## Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio

Isod mae'r cwestiynau y gwnaethom fynd ati i'w hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn archwilio: **Wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol a yw'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 2: cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 1. A yw strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol? | 1.1 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r sefyllfa 'fel y mae hi' (h.y. y galw/materion presennol i'w datrys) a'r rhesymau pam/achosion sylfaenol?<br><br>1.2 A oes dealltwriaeth drylwyr o'r ffactorau tymor hir a fydd yn cael effaith a'r heriau a'r cyfleoedd a allai godi (e.e. risgiau a chyfleoedd)? | • Mae'r Cyngor wedi defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu dealltwriaeth drylwyr o'r sefyllfa 'fel y mae hi' a sut mae'n debygol o newid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth (gan gynnwys data) sy'n ymwneud â:<br>– cynaliadwyedd gwasanaethau/ cydnerthedd a heriau adnoddau.<br>– anghenion dinasyddion a'r gymuned.<br>– achosion sylfaenol y galw/materion presennol i'w datrys.<br>– dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol a pha effeithiau y gallent eu cael, e.e. cymdeithasol, economaidd/gwleidyddol, amgylcheddol, diwylliannol neu dechnolegol. Gallent gynnwys tueddiadau hysbys e.e. poblogaeth sy'n heneiddio, adnoddau naturiol yn lleihau ac yn enwedig datblygiadau technolegol. Efallai y byddant hefyd yn cynnwys y rhai sydd â lefel uwch o ansicrwydd, e.e. swyddi a sgiliau y bydd angen amdanynt yn y dyfodol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae dadansoddiad y sefyllfa 'fel y mae hi' a sut mae'n debygol o newid yn cael ei lywio'n wybodus gan weithgaredd cyfranogi, fel sy'n briodol, sy'n adlewyrchu arfer da cydnabyddedig. (eg Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru , Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, cyngor ac arweiniad).<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio ei sylfaen dystiolaeth yn effeithiol i:<br>– nodi camau yn ei ddull strategol o ymdrin â digidol sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol a pham, gan gynnwys sut y gallent ymdrin ag achosion sylfaenol problemau; a<br>– llywio penderfyniadau ynghylch eu defnydd o dechnoleg ddigidol sy'n ceisio cydbwyso'r angen i gyflawni amcanion cyfnodau tymor byr a mwy tymor hir. |
| 2. A oes gan y Cyngor weledigaeth glir o'r hyn y mae eisiau ei gyflawni drwy ddefnyddio technoleg ddigidol? | 2.1 A yw'r Cyngor yn cynllunio dros gyfnod amserlen briodol? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried beth mae tymor hir yn ei olygu wrth gynllunio ei ddull o ymdrin â digidol – h.y. pa mor bell ymlaen y gall / y dylai gael ei gynllunio a pham (o leiaf ddeng mlynedd gan ystyried tueddiadau'r cyfnod mwy tymor hir fel sy'n briodol).<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall camau gweithredu sicrhau'r effaith orau dros gyfnod yr amserlen honno o ran canlyniadau a defnyddio adnoddau'n fwyaf effeithiol. Gallai hyn gynnwys ystyried pwyntiau ymyrraeth priodol sy'n gysylltiedig â diffiniad y Comisiynydd o atal. (Mae mwy o fanylion ar gael yn: Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y Broses Gyllidebu).<br>• Mae'r Cyngor wedi nodi mesurau ar gyfer ei strategaeth ddigidol sy'n adlewyrchu effeithiau cyfnodau tymor byr a mwy tymor hir a gwerth am arian, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel sy'n briodol. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae'r Cyngor wedi nodi sut y bydd gan ei strategaeth ddigidol adnoddau priodol yn ystod y cyfnod mwy tymor hir, cyn belled ag sy'n ymarferol (gweler y meini prawf sy'n ymwneud ag integreiddio hefyd). |
| | 2.2 A yw'r Cyngor wedi ystyried yr effeithiau ehangach y gallai ei strategaeth ddigidol eu cael, gan gynnwys:<br>• sut y gallai gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar y pethau eraill y mae'n ceisio eu cyflawni (h.y. ei amcanion llesiant a'i flaenoriaethau ehangach)?<br>• sut y bydd cyflawni yn effeithio ar yr hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni (h.y. eu hamcanion llesiant)? | • Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei strategaeth ddigidol wneud cyfraniad ledled y nodau llesiant.<br>• Mae staff sy'n datblygu'r strategaeth ddigidol yn deall yr hyn y mae cydweithwyr a phartneriaid yn ei wneud a sut mae eu gwaith yn berthnasol, ac maent wedi ceisio integreiddio'u gwaith gyda gwaith eu cydweithwyr o bob rhan o'r Cyngor a gyda sefydliadau partner.<br>• Mae integreiddio yn amlwg wrth wneud y strategaeth ddigidol yn gydnaws â strategaethau corfforaethol allweddol eraill a chynlluniau gwasanaethau. Er enghraifft, cynllun ariannol tymor canolig, cynllun y gweithlu, strategaethau rheoli asedau, datganiad llesiant a chynlluniau lleihau carbon.<br>• Mae'r strategaeth ddigidol yn gydnaws â dibenion strategol eraill fel:<br>– profiad cwsmeriaid;<br>– rheoli'r galw/gostyngiadau o alw ar sail methiant a'i hatal; a<br>– cynllunio a gweithredu modelau cyflenwi gwasanaethau newydd.<br>• Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn gydnaws â chynlluniau/strategaethau partneriaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys strategaeth ddigidol a chynlluniau llesiant Strategaeth Ddigidol i Gymru Llywodraeth Cymru. |
| | 2.3 A oes dealltwriaeth eang a chyffredin o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni? | • Mae gan gynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth ddigidol ddealltwriaeth gyffredin a chlir o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni a'r effaith a fwriedir ar ddarparu gwasanaethau. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| | | • Mae strategaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyfleu'n glir i staff a phartneriaid a allai helpu i'w chyflawni. |
| 3. A yw'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda'r bobl a'r partneriaid cywir i gynllunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol | 3.1 A yw'r Cyngor wedi nodi pwy y mae angen iddo ei gynnwys? | • Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o bwy fydd yn cael ei effeithio arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan ei strategaeth ddigidol a phwy y mae angen iddo ei gynnwys.<br>• Mae'r Cyngor i bob pwrpas wedi cynnwys yr amrywiaeth lawn o safbwyntiau wrth ddatblygu ei strategaeth ddigidol, gan gynnwys o ffynonellau anhraddodiadol a gan y sawl y gallai fod wedi methu â'u cyrraedd o'r blaen. |
| | 3.2 A yw'r Cyngor i bob pwrpas yn cynnwys yr amrywiaeth lawn o bobl y mae ei strategaeth ddigidol yn effeithio arnynt? | • Mae'r Cyngor wedi darparu cyfleoedd dilys i bobl ddylanwadu ar ddylunio a chyflawni ei strategaeth ddigidol o gam cynnar, gan gynnwys cynrychiolwyr grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau cyfranogi i lunio cynllun ei strategaeth ddigidol a'i chyflwyno. |
| | 3.3 A yw'r Cyngor yn cydweithio'n effeithiol â'r partneriaid cywir? | • Mae'r Cyngor yn cydweithio i sicrhau ei fod yn cyflawni gwell canlyniadau a gwerth am arian drwy ei strategaeth ddigidol ac mae wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gefnogi hyn, er enghraifft, ar gyfer:<br>– Rhannu arbenigedd ac adnoddau;<br>– rhannu gwybodaeth; a<br>– sicrhau monitro, gwerthuso ac atebolrwydd effeithiol gan gynnwys ystyried gwerth am arian. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 4. A yw'r Cyngor wedi rhoi adnoddau priodol i gyflawni ei strategaeth ddigidol fel y gall ddarparu manteision tymor hir/ataliol? | 4.1 A yw'r Cyngor yn deall y goblygiadau tymor hir ar gyfer adnoddau? | • Mae'r Cyngor wedi asesu costau a manteision defnyddio technoleg ddigidol i fuddsoddi mewn dulliau ataliol tymor hir a'r gost (yn ariannol ac o ran canlyniadau) o beidio â gwneud hynny.<br>• Mae'r Cyngor wedi ystyried yr adnoddau y bydd eu hangen arno i gyflawni ei strategaeth ddigidol yn ystod y cyfnodau tymor canolig a mwy tymor hir (costau oes gyfan) a sut y gallai reoli risgiau/talu'r costau hynny, gan gynnwys, er enghraifft, cynlluniau 'buddsoddi i arbed' a gostyngiadau a reolir mewn dyled dechnegol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyfrifo a nodi unrhyw arbedion y mae'n bwriadu'u gwneud drwy weithredu ei strategaeth ddigidol. |
| | 4.2 A yw'r Cyngor yn dyrannu adnoddau i sicrhau gwell canlyniadau yn ystod y cyfnod tymor hir? | • Mae camau gweithredu (gan gynnwys camau ataliol) sy'n debygol o gyfrannu at well canlyniadau a/neu well ddefnydd o adnoddau yn ystod y cyfnod mwy tymor hir yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi, hyd yn oed:<br>– lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr; a<br>– lle mae'r buddion yn debygol o gael eu casglu gan sefydliad arall neu'u priodoli iddo. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Cwestiynau Lefel 3 | Meini prawf |
|---|---|---|
| 5. A yw'r Cyngor yn monitro cynnydd ac yn ei adolygu? | 5.1 A yw'r Cyngor yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion cyfnodau tymor byr, canolig a mwy tymor hir? | • Mae'r Cyngor yn monitro costau a manteision cyflawni ei strategaeth ddigidol o safbwynt gwerth am arian.<br>• Mae'r Cyngor yn mesur y cyfraniad ehangach y mae'r strategaeth ddigidol yn ei wneud ledled amcanion ei hun/amcanion ei bartneriaeth.<br>• Caiff cynnydd ei fesur yn erbyn amcanion cyfnodau tymor byr, canolig a mwy tymor hir. |
| 6. Ydy'r Cyngor yn dysgu gwersi o sut mae'n gweithio? | 6.1 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei strategaeth ddigidol yn rheolaidd, gan gynnwys:<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cydweithredol;<br>– effeithiolrwydd ei weithgarwch cyfranogi, gan gynnwys effaith y strategaeth ar ddefnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol;<br>– effaith y strategaeth ar y sawl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; ac<br>– darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y strategaeth ddigidol yn gyffredinol o ran helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol.<br>• Mae'r Cyngor wedi adolygu gwersi a ddysgwyd o'i ymateb i'r pandemig ac mae'n cymhwyso'r dysgu hwn i'w strategaeth ddigidol. |
| | 6.2 A yw'r Cyngor yn rhannu gwersi a ddysgwyd o'i ddull strategaeth ddigidol? | • Mae'r Cyngor yn rhannu ac yn cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd o ddatblygu a chyflwyno ei strategaeth ddigidol yn eang ar draws y sefydliad, a gyda phartneriaid lle bo hynny'n berthnasol. |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.